

Her Sefydliad Morgan

Fel y gwyddoch, efallai, mae Prifysgol Abertawe yn noddi ac yn cynnal gweithgareddau yn y **GwyddonLe**, Pafiliwn Gwyddoniaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae Her Sefydliad Morgan wedi bod yn rhan o weithgareddau'r GwyddonLe ers 2018 ac rydym yn falch iawn o ddweud ein bod wedi penderfynu cynnal yr Her unwaith eto eleni ond y tro hwn, yn fyw ar-lein. Hoffai Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan ac Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe wahodd disgyblion blwyddyn 11, 12 ac 13 i gymryd rhan mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus, i'w chynnal fel rhan o weithgareddau rhithwir y GwyddonLe, ar ddydd **Gwener, Mehefin 4ydd**.

Dyma gyfle i ddisgyblion arddangos eu sgiliau rhesymu a dadlau yn ogystal â derbyn adborth gan ffigurau blaenllaw fydd yno'n beirniadu'r gystadleuaeth.

Dyfernir siaradwr gorau o blaid a siaradwr gorau yn erbyn y cynnig ac mae yna wobwr ariannol o **£500** i'w rhannu rhwng ysgolion y buddugwyr. Dyfernir un o'r siaradwyr yn brif enillydd yr Her a bydd yr unigolyn buddugol hwnnw yn cael y cyfle amhrisiadwy i ddod ar brofiad gwaith i Brifysgol Abertawe. Os nad yw hynny'n gyfleus, gallwn drefnu profiad gwaith mwy lleol gan ddefnyddio ein cysylltiadau gydag Aelodau Cynulliad eich ardal chi. Bydd pawb sy'n mentro trwy gymryd rhan yn derbyn tystysgrif hefyd a fydd yn dystiolaeth werthfawr ar gyfer datganiad personol neu ddatblygiad gyrfa.

Gofynnir i ysgolion enwebu **dau** ddisgybl i gymryd rhan a bydd angen i un disgybl fod yn barod i ddadlau dros y testun gosod, a'r llall yn erbyn. Os oes diddordeb gennych, a wnewch chi anfon clip fideo o'r ddau ddisgybl gyda'i gilydd, yn amlinellu pam y dylid eu dewis nhw i gymryd rhan yn y gystadleuaeth a beth yw eu safbwyntiau ar y testun gosod, sef 'Ai nawr yw'r amser i ddatgan argyfwng yr hinsawdd?'. Ni ddylai'r clip fod yn hirach na 90 eiliad, a chofiwch gynnwys enwau'r unigolion ac enw'r ysgol. Anfonwch y clip fideo atom ar ffurf ffeil neu ddolen ar e-bost at saran.g.thomas@abertawe.ac.uk erbyn yr **26ain o Fawrth, 2021**.

Bydd proses ddethol yn digwydd wedyn ar sail y clipiau hyn ac fe gaiff yr ysgol wybod erbyn Ebrill 30 a fydd gwahoddiad i chi gystadlu yn y GwyddonLe. Bydd manylion pellach ar union strwythur y gystadleuaeth gyda'r neges honno.

Gobeithiwn yn fawr y bydd gan yr ysgol, a'ch disgyblion, awydd cystadlu yn Her Sefydliad Morgan ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich ceisiadau.